**Cytundeb Cenedlaethol ar Ddyrannu Llwyth Gwaith Darlithwyr ar gyfer Colegau Addysg Bellach yng Nghymru**

**Fersiwn Bleidlais 13 Medi 2013**

## 1. Cyd-destun

1.1 Mae'r Cynllun hwn yn rhan o'r Cytundeb Cenedlaethol ar Gontract Cyffredin Addysg Bellach. Daethpwyd i'r cytundeb hwn rhwng yr undebau llafur cydnabyddedig a ChOlegauCymru.

1.2. Mae'r Cynllun Dyrannu Llwyth Gwaith yn nodi'r gofynion o ran llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r Contract Cenedlaethol. Dim ond Pwyllgor Negodi Addysg Bellach Cymru (WNCFE) a all amrywio'r Cynllun hwn. Gellir ychwanegu trefniadau pellach at y cynllun hwn ar lefel y Coleg.

## 2. Cwmpas a Diben

2.1 Diben y cynllun hwn yw sicrhau bod dyraniad llwyth gwaith i staff darlithio yn deg a rhesymol,

2.2 Nodau'r cynllun hwn yw:-

- sicrhau safon uchel o ddysgu ac addysgu;
- creu amgylchedd gweithio sy'n arwain at gydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd;
- galluogi i waith gael ei ddyrannu mewn ffordd sy'n deg, yn gyson ac yn dryloyw;
- cydnabod y cyfraniad proffesiynol y mae staff darlithio yn ei wneud i ragoriaeth addysgu a chymorth i ddysgwyr.

## 3. Egwyddorion Cyffredinol

3.1 Mae gan bob darlithydd gyfrifoldeb i wella ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Rhaid iddynt hefyd ymdrechu i hybu datblygiad unigol y dysgwyr drwy'r camau dysgu ac ymlaen at gyflogaeth neu astudio pellach.

3.2 Y bwriad yw sicrhau cydbwysedd rhwng addysgu a dyletswyddau eraill darlithwyr a sicrhau y caiff sgiliau ac arbenigedd y staff eu defnyddio i gael yr effaith orau bosibl.

3.3 Mae rheolwyr a darlithwyr unigol yn y sefyllfa orau i asesu'r holl ffactorau sy'n effeithio ar lwyth gwaith unigolyn.

3.4 Gall darlithwyr ddisgwyl cychwyn ar drafodaethau yn ymwneud â'u rhaglen bersonol ar yr amser priodol yng nghylch cynllunio'r coleg.

3.5 Yn ddibynnol ar niferoedd ymgofrestru'r coleg, caiff rhaglen pob darlithydd ei phennu ymlaen llaw a'i chofnodi ar amserlen y darlithydd, gan ganiatáu amser digonol i'r darlithydd baratoi ar gyfer ei (h)ymrwymiad addysgu.

3.6 Bydd oriau addysgu darlithydd sydd wedi eu hamserlennu'n ffurfiol ac unrhyw amser rhyddhau a gydnabyddir ar gyfer dyletswyddau eraill yn ddibynnol ar rôl a chyfrifoldebau penodol y darlithydd ac yn cael eu pennu yn unol â threfniadau'r Coleg ar gyfer rhyddhau.

## 4. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Proffesiynol

4.1 Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau staff darlithio o natur broffesiynol, maent yn gynhwysfawr a byddant yn amrywio yn ôl profiad a chyfrifoldebau unigolion fel a amlinellir mewn swydd-ddisgrifiadau unigol a chyffredinol. Gallant gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:-

4.1.1 Pob ffurf ar waith addysgegol gan gynnwys addysgu yn y dosbarth, gwaith tiwtorial a dyletswyddau allgymorth cysylltiedig, cyrsiau dysgu preswyl, agored ac o bell a lleoliadau gwaith myfyrwyr. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys gwaith gweinyddol sefydliadol cysylltiedig, gwaith paratoi ac asesu, gwirio mewnol, tracio myfyrwyr, cymorth i fyfyrwyr a chyfrifoldebau lles a chwnsela academaidd priodol.

4.1.2 Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) gan gynnwys cynnal a chyfranogi yn y gwaith o werthuso staff / rheoli ac adolygu perfformiad a hyfforddiant mewn swydd yn seiliedig ar asesu anghenion unigolion a'r coleg (gweler adran 5).

4.1.3 Gwaith datblygu cwricwlwm gan gynnwys nodi gofynion dysgwyr, cynllunio, datblygu a gwerthuso cyrsiau a deunydd cyrsiau a goruchwylio darpariaeth cyrsiau.

4.1.4 Gwaith rheoli a gweinyddu gan gynnwys gweinyddu cyrsiau neu raglenni addysg a hyfforddiant neu agweddau neu isadrannau o unrhyw rai o'r rhain; cyfrifoldebau yn ymwneud â marchnata, cyhoeddusrwydd a chysylltiadau cyhoeddus; ymgofrestru a chyswllt ag ysgolion; cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm a phwyllgorau priodol; rheoli cyrsiau gan gynnwys cyfweld a rhoi arweiniad, anwytho, asesu, cadw a phresenoldeb, cyraeddiadau a chyflawni canlyniadau da mewn arholiadau, datblygiad myfyrwyr, lleoliadau a chyrchnodau, monitro, adolygu a gwerthuso.

4.1.5 Arolygu arholiadau

4.1.6 Cymryd rhan mewn sicrhau ansawdd, gweithdrefnau rheolaeth mewnol ac allanol, gwerthuso modiwlau a chyrsiau, a chymryd rhan mewn prosesau hunanasesu / arwain y prosesau hynny.

4.1.7 Gwaith cwnsela a lles myfyrwyr gan gynnwys unrhyw waith penodol ar les myfyrwyr a gwaith cwnsela anacademaidd a chynorthwyo i nodi ffynonellau allanol sy'n cynnig cymorth arbenigol.

4.1.8 Cymryd rhan yn y gwaith o drafod gyda chyflogwyr ac asiantaethau eraill i nodi'r diffygion sgiliau a'r galw am sgiliau yn lleol, er mwyn cynorthwyo yn y gwaith o gynllunio darpariaethau priodol i'r dyfodol.

## 5. Datblygiad Proffesiynol Parhaus

5.1 Mae gofyn i chi gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus yn unol â pholisi'r Coleg sy'n cynnwys:

5.1.1 Ymgymryd â 30 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn (bydd trefniadau pro rata yn berthnasol i staff ffracsiynol a staff rhan amser a delir fesul awr);

5.1.2 Cytuno ar raglen DPP o'r fath gyda'ch rheolwr llinell i gyd-fynd â gofynion DPP y coleg a'r adran a gofynion DPP personol a bennir drwy gamau gwerthuso staff / rheoli ac adolygu perfformiad.

5.1.3 Cynnal a darparu copi o gofnod o'r DPP a wnaed gennych; gan gynnwys manylion y darparwr ac unrhyw gofrestriad cysylltiedig os yw'n berthnasol.

5.2 Caiff DPP fel a amlinellir yn 5.1 sy'n diwallu anghenion y coleg ei ddarparu oddi mewn i gyfanswm yr oriau a gontractiwyd ac ni fydd yn peri cost i'r cyflogai. Ni fydd hyn yn berthnasol pan fydd cyflogai a'r coleg yn cytuno ar DPP sy'n cynnwys cyfraniad ariannol personol a/neu sy'n digwydd y tu allan i'r oriau a gontractiwyd.

## 6. Dyrannu Llwyth Gwaith: Diffiniadau a Therminoleg

6.1 Ni fydd ymrwymiad addysgu amser llawn arferol yn fwy nag 835 awr y flwyddyn (pro rata i staff ffracsiynol).

6.2 Yr wythnos waith amser llawn arferol yw dydd Llun i ddydd Gwener a dydd Sadwrn mewn rhai achosion, drwy gytundeb. Ni fydd gofyn i ddarlithydd ymgymryd ag amserlen o addysgu sy'n fwy na phum diwrnod yr wythnos.

6.3 Bydd diwrnod gwaith amser llawn arferol yn cynnwys tri bloc o addysgu – bore, prynhawn a chyda'r nos – a chaiff amserau'r rhain eu pennu gan bob Coleg.

6.4 Bydd hyd sesiwn addysgu yn cael ei bennu gan y coleg unigol.

6.5 Ni fydd yr wythnos waith yn fwy na 24 sesiwn.

## 7. Yr Wythnos Waith

7.1 Bydd gofyn i ddarlithydd amser llawn addysgu am ddim mwy na 24 awr mewn wythnos waith arferol.

7.2 Bydd gofyn i ddarlithydd addysgu 2 awr ychwanegol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol am gyfnod o hyd at gyfanswm o 7 wythnos (hynny yw, dim mwy na 26 awr yr wythnos).

7.3 Ni fydd gofyn i ddarlithydd addysgu oriau ychwanegol fel a nodir yn 7.2 uchod os yw'n gyfrifol am baratoi a chyflenwi darpariaeth cwricwlwm newydd sylweddol.

7.4 Ni fydd disgwyl i ddarlithydd fel arfer addysgu am fwy na 10 bloc yr wythnos nac am fwy na 4 bloc yn olynol.

7.5 Gallai fod yn ofynnol i ddarlithydd addysgu am hyd at ddau floc gyda'r nos bob wythnos (gweler 6.3 hefyd).

7.6 Pan fydd darlithydd yn addysgu ar ôl 6.00 pm, bydd gan y darlithydd yr hawl i gymryd amser cyfwerth i ffwrdd yn lle hynny yn ystod y dydd, ac yn ystod yr un wythnos, oni bai y ceir cytundeb rhwng y darlithydd a'r rheolwr i'w gymryd ryw amser gwahanol. Rhaid i unrhyw gytundeb fod yn ysgrifenedig.

7.7 Ni fyddai disgwyl i ddarlithydd addysgu am gyfnod parhaus o fwy na thair awr heb doriad. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir mynd y tu hwnt i hyn, a/neu yn achos pynciau ymarferol penodol, gyda chytundeb y darlithydd ymlaen llaw.

7.8 Bydd gan ddarlithydd amser llawn yr hawl i gymryd hyd at 5 awr bob wythnos addysgu i ffwrdd o safle'r Gorfforaeth. Bydd amseru'r oriau hyn yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y rheolwr llinell.

7.9 Ni fydd disgwyl i staff ar gyfnod prawf yn ystod eu blwyddyn gyntaf o addysgu gyflenwi mwy na 90% o'r contract blynyddol a bydd o leiaf 10% o'r contract (un bloc fel sydd wedi ei ddiffinio yng nghymal 6.3) bob wythnos yn cael ei gadw'n rhydd ar yr amserlen.

7.10 Ni fydd disgwyl i ddarlithwyr sy'n ymgymryd â chymhwyster addysgu proffesiynol ar gais y coleg gyflenwi mwy na 90% o'r contract blynyddol a bydd o leiaf 10% o'r contract (un bloc fel sydd wedi ei ddiffinio yng nghymal 6.3) bob wythnos yn cael ei gadw'n rhydd ar yr amserlen. Caiff yr amser hwn ei ddefnyddio i gynorthwyo i gyflawni'r cymhwyster.

7.11 Ni all cyfanswm yr amser rhyddhau fel a nodir yng nghymalau 7.9 a 7.10 fod yn fwy na 10% mewn unrhyw flwyddyn unigol.

## 8. Trefniadau Llanw

8.1 Gellir gofyn i ddarlithydd lanw ar ran cydweithiwr addysgu ac mae hyn yn ddibynnol ar gytundeb y darlithydd. Y mae'n bosib y bydd gofyn gwneud gwaith paratoi ac asesu yn gysylltiedig â'r amser yn yr ystafell ddosbarth wrth lanw.

## 9. Hawl i Wyliau

9.1 Dylai calendr y Coleg nodi'n glir yr wythnosau hynny sydd wedi'u pennu ar gyfer sesiynau gweinyddu, cyngor, ymgofrestru, cwricwlwm a datblygu staff a diwrnodau effeithlonrwydd er mwyn i'r staff allu cynllunio eu gwyliau.

9.2 Bydd y Colegau yn ymgynghori ac yn cyhoeddi'r cyfnodau hynny pan ellir neu ni ellir cymryd gwyliau blynyddol yn unol ag anghenion penodol y Coleg a'i ddysgwyr.

9.3 Mae amseru pob gwyliau yn ddibynnol ar gytundeb y rheolwr llinell. Dylid cyflwyno amlinelliad o amserlen cyfnodau'r prif wyliau erbyn 31ain Hydref bob blwyddyn pan fo hyn yn ymarferol resymol.

9.4 Bydd gan staff darlithio yr hawl i 20 diwrnod olynol o wyliau blynyddol, a chaiff amseru'r gwyliau hyn ei gytuno yn unol ag anghenion y Coleg a natur y rhaglen addysgu.

9.5 Mae gofyn i'r darlithydd gofnodi pob gwyliau a gymerir, yn unol â gweithdrefnau'r Coleg.

## 10. Hawl Apelio

10.1 Os yw darlithydd yn pryderu ynglŷn â thegwch ei amserlen/hamserlen neu weithrediad ei gytundeb/chytundeb, dylai drafod ei bryderon/phryderon yn y lle cyntaf â'i reolwr/rheolwr llinell.

10.2 Os na all y rheolwr llinell fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn foddhaol, gall yr unigolyn gofrestru apêl ffurfiol yn unol â Gweithdrefnau Cwyno'r Gorfforaeth.